

# Swydd Cydymaith Pobl Ifanc April 2021

Mae Peak yn recriwtio er mwyn llenwi dwy swydd ran-amser hyblyg y gwanwyn hwn – Cydymaith cyfathrebu (2 ddiwrnod yr wythnos) a Chydymaith Pobl Ifanc (3 diwrnod yr wythnos) – a rydym yn falch tu hwnt eich bod yn ystyried cyflwyno cais amdanynt.

Yn y pecyn hwn fe ddewch o hyd i'r canlynol:

- Pwy ydym ni – gwybodaeth gefndir ynghylch Peak, ei werthoedd a'i waith
- Crynodeb o delerau cyflogaeth y swyddogaeth
- Pwy ydych chi a sut fyddwch chi'n cyflawni'r swyddogaeth
- 'Manyleb person' yn disgrifio'r medrau, y wybodaeth a'r profiad a fydd yn eich gwneud yn llwyddiant wrth gyflawni'r rôl
- Sut i wneud cais
- Cwestiynau a holir yn fynych

Y dyddiad cau ar gyfer y naill swydd a'r llall yw dydd Mawrth 4 Mai am 6pm

Bydd yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael cyfweliad dydd Mercher 12 Mai (Cyfathrebu) a dydd Gwener 14 Mai (Pobl Ifanc)


Rydym yn annog yn arbennig geisiadau oddi wrth bobl sy'n dod o gefndiroedd sydd wedi eu tan-gynrycholi yn y sector gelf a threftadaeth, a / neu sydd heb ddilyn trywydd confensiynol neu ffurfiol i gyflogaeth. Nid oes angen i chi fod yn bodloni'r holl feini prawf y cyfeirir atynt ym manyleb y person er mwyn cyflwyno cais.

Rydym yn dymuno gwneud ein proses recriwtio mor ddynol a chynnes â phosib. Pe hoffech drafod y rôl, a'ch cais, yna anfonwch e-bost at [info@peak.cymru](mailto:info@peak.cymru), neu anfon neges uniongyrchol at ein cyfrif trydar (@peakcymru) er mwyn trefnu amser i sgwrsio gydag un o'n dwy gyfarwyddwr, Justine Wheatley (Gweithredol) neu Melissa Appleton (Creadigol).

Cofion cynnes

Justine Wheatley

Melissa Appleton



# Peak: Yn creu newid er gwell gyda phobl a llefydd yng Nghymru Wledig

## Cydymaith Pobl Ifanc

Mae Peak yn cydweithio gydag artistiaid proffesiynol, pobl ifanc a chymunedau, ac yn ymateb i nodweddion unigryw ein amgylchfyd gwledig yng Nghymru, ein tirwedd, diwylliant a'n iaith. Ymdrechwn i wireddu canlyniadau creadigol a chymdeithasol, a mynd i'r afael â sefyllfaoedd cymdeithasol, hiliol, amgylcheddol a chyflawnder yn ne Cymru. Canolbwyntiwn ein adnoddau ar gydweithio gyda thri grŵp – artistiaid proffesiynol, pobl ifanc (16-25 mlwydd oed), a chymunedau gwledig.

## Pam nawr? Y foment hon

Mae 2020 wedi bod yn gyfnod o newid i Peak. Er i ni gau ein safle yn yr Hen Ysgol, Crucywel o ganlyniad i gyfyngiadau pandemig Cofid-19, rydym wedi parhau i weithio ar-lein gyda rhaglenni megis Storm Kitchen Talks a Criw Celf – gweithio gyda chynulleidfaoedd a chydweithwyr yn lleol a rhyngwladol. Rydym wedi bod yn ail-ddychmygu ein safle yn yr Hen Ysgol, gan wneud ein cegin a'n hardaloedd crochenwaith yn fwy croesawgar a defnyddiol. Yn ddiweddar fe wnaethom ni sicrhau safle arall yn ngorsaf reilffordd y Fenni er mwyn darparu gofodau stiwdio a phrosiectau.

Yn Mehefin 2020, fe wnaethom ni gyhoeddi'r [datganiad](#) hwn yn cydnabod ein bod, fel sefydliad, wedi methu â bod yn wrth-hiliol yn ein strwythurau, ein llywodraethiant a'n rhaglennu a dweud bod Bywydau Du o bwys. Mae ein gweithlu presennol yn wyn yn bennaf ac wedi eu haddysgu hyd at lefel gradd. Rydym yn dymuno dod â'r cyfoeth sy'n bodoli mewn cefndiroedd, hunaniaethau a phrofiadau gwahanol i'r sefydliad ac o'r herwydd yn annog ceisiadau oddi wrth bobl o gefndiroedd a chymunedau sydd wedi eu tan-gynrychioli, neu unrhyw

un sy'n teimlo na chlywir eu lleisiau yn gyffredin yn y sector gelfyddydol/ ddiwylliannol a / neu gymunedau gwledig. Gwaith tymor hir yw gwneud Peak yn fwy cynhwysol a theg; mae gennym gryn dipyn i'w ddysgu o hyd, ond os y'ch chi'n rhannu ein penderfyniad i wireddu newid go iawn, yna byddem yn falch iawn o glywed oddi wrthy'ch chi. Sylweddolwn mai dim ond trwy bwyllo ac ail-greu ein strwythurau y medrwn ail-greu ein strwythurau a'n prosesau mewnol i fod yn fwy dynol, parchus, cyd-gysylltiedig, cyd-ddibynnol ac ymatblyg.

Ar yr adeg hon o newid i Peak, rydym yn creu swyddi Cydymaith rhan amser. Rydym yn defnyddio'r term 'Cydymaith' er mwyn cydnabod y bydd ymarferwyr yn dod a'u profiad ehangach ac arbenigedd i'r sefydliad ac er mwyn i ni fedru gwerthfawrogi hyn yn gyhoeddus. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn gwerthuso sut i strwythuro Peak yn fwy teg ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod modd i ni wireddu'r weledigaeth hirydymor hon.

Bydd ein **Cydymaith Pobl Ifanc** yn arwain perthynas Peak a phobl ifanc sy'n byw yng nghefn gwlad, yn arbennig rhai rhwng 16 a 25 mlwydd

oed; mae nifer o'r rheiny yn wynebu materion personol dwys. Byddwch yn cefnogi eu swyddogaeth nhw sy'n ganolog i ddynesiad creadigol Peak, ein gweithgarwch a'n gweithredu, gan wireddu rhaglenni cydweithredol sy'n eu meithrin i fod yn unigolion creadigol, hyderus a dygn. Rydym yn awyddus i weithio gydag ymarferydd sy'n gynghreiriad penderfynol ac effeithiol i'r bobl ifanc, y mae llawer ohonynt yn wynebu heriau personol cymhleth ac sy'n deall yr heriau ychwanegol sydd

ynghlwm â byw yng nghefn gwlad.

Nid ydym yn disgwyl i chi fod â phrofiad ym mhob un o'r meysydd a amlinellir yn y disgrifiad swydd a'r manyleb person. Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo eich bod chi'n ticio pob bocs, ymgeisiwch beth bynnag os gwelwch yn dda. Byddwn yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol mewn meysydd lle bo gennych llai o brofiad, ac yn hybu eich hyder a'ch galluogi i ddysgu medrau newydd.

## Sut i ymgeisio

Dyddiad Cau:  
6pm Mawrth 4 Mai 2021

Cyfweliadau:  
Gwener 14 Mai 2021

Er mwyn gwneud cais, a wnewch chi anfon y wybodaeth isod os gwelwch yn dda at [info@peak.cymru](mailto:info@peak.cymru) eerbyn 6pm Mawrth 4 Mai, yn cyfuno eich holl ddogfennau i mewn i un ddogfen PDF ynteu Word.

1. Eich Ffurflen Mynegi Diddordeb
2. Ffurflen Fonitro Cydraddoldebau
3. Eich CV (dim mwy na 2 ochr o bapur A4)

Mae'r ffurflen gyntaf yn gofyn i chi esbonio pam eich bod yn dymuno cael y rôl hon beth y'ch chi'n ei gyfrannu i'r swydd, a sut yr ydych yn bodloni manyleb y person. Rydym yn hapus iawn i dderbyn mynegiant o ddiddordeb trwy ffeil sain neu fideo, ond rhaid i'r sain/ffilm gyfan fod yn fyrrach na 5 munud. Os fedrwn eich cefnogi er mwyn eich galluogi i gyflwyno cais mewn fformat gwahanol yna cysylltwch â ni trwy e-bostio [info@peak.cymru](mailto:info@peak.cymru). Fe

wnewch chi ddod o hyd i ffurflenni cais a mynegiant o ddiddordeb, yn ogystal â ffurflenni monitro cydraddoldeb [yma](#).

Bydd pob cais yn cael ei gydnabod erbyn diwedd y dydd, Mercher 5 Mai. Bydd 3 ymgeisydd yn cael eu dewis ar gyfer y rhestr fer i'w cyfweld; Bydd y rhai a wahoddir i'w cyfweld yn cael tasg i'w pharatoi a'i chyflwyno fel sylfaen ar gyfer ein sgwrs. Fydd y cyfweliadau ddim yn para yn hwy na 60 munud, ac fe'i cynhelir dydd Gwener 14 Mai trwy gyfrwng Zoom a bydd gyda chyfarwyddwyr Peak, ymddiriedolwr, ac aelodau sPeak, ein panel ar gyfer pobl ifanc.

Rydym yn cynnig ffi i ymgeiswyr sy'n cyrraedd ein rhestr fer er mwyn iddynt gael paratoi ar gyfer y cyfweliad a gallwn dalu treuliau mynediad (er enghraifft cyfraniad at gostau gofal plant, dehonglwyd, ac amser oddi wrth y gwaith) er mwyn eich galluogi i fynychu. Gwaetha'r modd, does gennym ni ddim mo'r adnoddau i ddarparu adborth i'r ymgeiswyr rheini nad ydynt yn cyrraedd y rhestr fer.

## Crynodeb

**Teitl:** Cydymaith Pobl Ifanc

**Pwrpas y swydd:** Datblygu, gwireddu a gwerthuso rhaglen bobl ifanc Peak mewn cydweithrediad ag artistiaid a phartneriaid

**Lleoliad:** Lleiafswm o 1 diwrnod yr wythnos yn un o safleoedd Peak pan fo'r rheolau iechyd cyhoeddus yn caniatáu hynny. Mae'r swydd yn cynnwys teithio i leoliadau addysgiadol a mannau diarffordd lle bo'r trafndiaeth gyhoeddus yn sâl, ynteu ddim ar gael

**Yn adrodd i:** Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chreadigol

**Yn gweithio gyda:** Cyfarwyddwyr, Cydymaith Cyfathrebu (yn cael ei recriwtio ar hyn o bryd) a staff llaw-rydd yn cynnwys Cydlynnydd y Gymraeg a'r Cydymaith Guradur.

**Rheolaeth linell dros:** Staff prosiect llaw-rydd yn gweithio o fewn rhaglen bobl ifanc Peak

**Telerau Cyflogaeth:** Tymor penodol am 12 mis, 3 diwrnod yr wythnos (21 awr).

**Telerau Cyflogaeth:** Tymor penodol am 12 mis, 2 ddiwrnod yr wythnos (15 awr).

**Patrwm gwaith:** Gall diwrnodau a

threfniadau gwaith fod yn hyblyg o fod wedi trefnu hynny rhag blaen gyda chydweithwyr. Mae gennym 3 x 'Seibiant Peak' wedi eu trefnu rhag blaen yn ystod y flwyddyn, sef wythnosau wedi eu trefnu ymlaen llaw pan fo staff yn gweithio yn dawel ac yn cael cyfle i ddarllen ac ymchwilio yn unigol. Bydd disgwyl i chi weithio y tu hwnt i oriau swyddfa arferol o dro i dro, yn cynnwys gwaith dros y penwythnos.

**Graddfa gyflog:** Cyfradd NJC pwynt 23 i 26: £27,741 i £30,451, pro-rata (£16,645 to £18,271 y flwyddyn)

**Buddion:** cynllun pensiwn NEST; cefnogaeth i dderbyn hyfforddiant a datblygiad

**Gwyliau:** 20 diwrnod yn ogystal â gwyliau banc statudol, wedi eu hamcangyfrif pro-rata; mae egwyl ychwanegol dros wythnos y Nadolig. Trefnir gwyliau personol yn ôl eich trefniadau personol ac yn dilyn cytundeb cydweithwyr rhag-blaen. Rydym yn annog trefnu egwyl yn gyson er mwyn cefnogi eich lles personol ac yn cynnig amser i ffwrdd yn lle amser ychwanegol a weithiwyd ar adegau prysur.

**Cyfnod prawf:** 3 mis

**Cyfnod rhybudd:** 1 mis



Performance Butty, Hinterlands Wales, 2019 with Stefan Caddick. Photo by Vaida Barzdaite

## Amdanoch chi

Bydd y **Cydymaith Pobl ifanc** yn gwireddu rhaglen Peak ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys datblygu sPeak, panel pobl ifanc Peak, yn gynladwy, gwireddu Criw Celf de Powys (sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 15 mlwydd oed) a phrosiect digidol sy'n targedu menywod ifanc. Gan weithio fel rhan o dîm bychan, byddwch yn creu gofodau diogel, cynhwysol a chreadigol er mwyn i bobl ifanc fedru cyd-weithio gydag artistiaid ar-lein, a wyneb yn wyneb pan fo iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny. Rydym yn chwilio am ymarferydd sydd:

- ag ymrwymiad i gefnogi cyfranogi gweithredol gan bobl ifanc sy'n wynebu bod ar y cyrion o ganlyniad i anabledd, hil, dosbarth, sefyllfa cymdeithasol-economaidd, rhyw neu gyfrifoldebau gofalu
- wedi eich hysbrydoli gan y posibiliadau unigryw o weithio yn ne ddwyrain Cymru, a heriau cymunedau a lleoliadau gwledig yn arbennig o safbwynt cyfleoedd i bobl ifanc, bywoliaethau creadigol a'r argyfwng hinsawdd.
- Yn medru gweithio â chywreinrwydd, cynhesrwydd, unplygrwydd ac mewn ffordd agored er mwyn cefnogi pobl ifanc i ffynnu o fewn ein rhaglenni
- Yn abl a hyderus i weithio'n gydweithredol gydag artistiaid proffesiynol, cynllunwyr, crewyr ac

ysgrifenywyr

- yn modelu agwedd broffesiynol ac integriti, ac â dealltwriaeth o swyddogaeth gwarchod a diogelu o ran creu gofod diogel a chynhwysol i bobl ifanc gwrdd ynddynt
- sy'n rhannu ein uchelgais o ran cael dynesiad bwriadol a chreadigol tuag at y Gymraeg ac aml-ieithrwydd
- yn medru cynnal a meithrin partneriaethau sy'n bodoli eisoes gyda chydweithwyr, partneriaid cymunedol (yn cynnwys ysgolion a cholegau), cyllidwyr a phartneriaid allanol, ac yn medru creu partneriaethau newydd, ac yn enwedig felly gyda grwpiau hinsawdd a democratiaeth cymdeithasol pobl ifanc
- yn gwerthfawrogi swyddogaeth allweddol celfyddyd a diwylliant ym mywydau pobl ifanc a chymunedau, a gyda diddordeb cryf yn y celfyddydau gweledol a'r ffordd y mae yn cyd-gysylltu â meysydd a disgyblaethau eraill.

Bydd y Cydymaith Pobl Ifanc â swyddogaeth bwysig o ran datblygu rhaglen ar y cyd gyda phobl ifanc yng ngorsaf reilffordd Y Fenni ac ar safle Yr Hen Ysgol yn Ngrucywel wrth iddo ail-agor. Bydd yn arwain ac yn hyrywyddo'r pobl ifanc mewn gwaith cydweithredol cyffrous gydag artistiaid a phartneriaid, yn arbennig felly trwy Pegwn, ein gr p Dyfodolau Cymraeg, a gyda Thrafnidiaeth dros Gymru.

## **Beth fyddwch chi'n ei wireddu:**

**Arweinyddiaeth greadigol** - byddwch yn cyfrannu at gyfeiriad creadigol Peak, gan weithio trwy lens pobl ifanc, a rhoi siâp ar raglen a fydd yn eu galluogi i ffynnu, datblygu a rhannu arweinyddiaeth Peak.

**Datblygu a gwireddu rhaglenni** – byddwch chi'n gwireddu elfennau allweddol o raglen pobl ifanc Peak gan weithio'n gyd-weithredol gyda phobl ifanc, artistiaid, partneriaid a'ch cydweithwyr yn Peak. Bydd y rhaglen yn cefnogi meithrin medrau ac yn darparu cyfleoedd cyfeillgar a hygyrch i fod yn rhan o gelfyddyd a diwylliant cyfoes sy'n ymateb i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac yn bodloni amcanion artistig Peak.

Mae rhaglen eleni yn cynnwys: **sPeak**, byddwch yn creu rhaglen greadigol ar gyfer grŵp pobl ifanc Peak, gan drefnu cyfarfodydd o leiaf 6 gwaith y flwyddyn, a rheoli aelodaeth, diogelu a recriwtio yn sensitif yn ôl y galw. Os fydd adnoddau yn caniatáu hynny, byddwch yn datblygu trywyddau amrywiol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran

**Criw Celf de Powys** – byddwch yn llunio rhaglen ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 1 mlwydd oed a rhwng 15 ac 19 mlwydd oed, i'w ddarparu ar-lein neu gyda rhai gweithdai wyneb yn wyneb hefyd **Treth Tampon** byddwch chi'n trefnu rhaglen wedi ei thargedu ar gyfer

menywod ifanc o gefndiroedd sydd wedi eu tan-gynrychioli, a'u cefnogi i fod yn rhan o weithdai ar-lein ynteu yn ein gofodau yng ngorsaf reilffordd Y Fenni.

**Rheoli a chyd-lynu** – byddwch chi'n trefnu ac amserlennu cyfarfodydd rhaglen a gweithdai, recriwtio a chytundebu artistiaid, asesu risg gweithgareddau, cadw cofnodion a sicrhau bod yr holl adnoddau yn eu lle, yn arbennig felly o ran cefnogi mynediad a diogelu, pa un ai ar-lein ynteu mewn digwyddiadau neu weithdai wyneb yn wyneb. Byddwch yn monitro cyllidebau, gan gyd-gysylltu gyda chyfarwyddwyr a swyddog cyllid Peak. Lle bo hynny'n addas, byddwch yn gwneud yn siŵr bod cofnod o ddigwyddiadau trwy luniau neu ffilm.

**Estyn allan** byddwch yn meithrin perthnasau newydd a chynnal rhai sy'n bodoli eisoes **gyda phobl ifanc** gan weithio'n agos gyda chydymaith cyfathrebu Peak er mwyn cyrraedd pobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau o ran bod yn rhan o gelf a diwylliant

**Gweithio mewn partneriaethau** byddwch chi'n cynnal ac yn datblygu perthynas gadarnhaol gydag **artistiaid** sy'n cyfrannu at ein rhaglenni a gyda **phartneriaid** yn cynnwys ysgolion a chyd-destunau addysgiadol eraill, a'r nifer eang o bartneriaid cymunedol y mae Peak yn gweithio â nhw o Yr Hen Ysgol ac o Orsaf Reilffordd Y Fenni

**Gwerthuso** gan weithio gyda chydweithwyr Peak, byddwch yn cynllunio a chynnal adnoddau casglu data er mwyn tafoli ein gwaith yng nghyd-destun y canlyniadau arfaethedig a osodwyd, a chynorthwyo gyda mesur a chofnodi effaith ein gwaith. Bydd yn cynnwys gwerthuso grŵp a gwerthuso unigol yn ogystal â llunio astudiaethau achos.

**Gwaith eirioli** byddwch yn eiriol yn gadarnhaol dros Peak a sPeak, a dros yr holl bobl ifanc yr ydym yn gweithio gyda nhw, mewn digwyddiadau, cyfarfodydd ac ar draws y sector gelfyddydol a diwylliant.

**Cyfathrebu effaith ein gwaith** gan ei osod yng nghyd-destun eich profiad o bobl ifanc, a'r deunydd gwerthuso y byddwch chi'n ei gasglu, byddwch yn gweithio'n agos gyda Cydymaith

Cyfathrebu Peak er mwyn rhannu gwaith pobl ifanc o fewn Peak, y potensial sydd iddo a'r effaith a gafodd ar Peak, arnyn nhw eu hunain, ac ar eu cymunedau

**Datblygu Proffesiynol** byddwch yn ymrwymedig i'ch datblygiad proffesiynol chi eich hun, gan gynnwys eich rhwydweithiau personol ym meysydd gweithredu celfyddyd a diwylliant gyfoes mewn ffordd sy'n gysylltiedig yn gymdeithasol a chysylltu â rhaglenni pobl ifanc eraill.

**Llywodraethiant** byddwch yn cyfrannu at adroddiadau chwarterol y Bwrdd yr ydym yn eu paratoi ar gyfer ein hymddiriedolwyr ac at unrhyw adroddiadau y lluniwn ar gyfer ein cyllidwyr; byddwch yn cyflwyno yn ôl y glaw ac yn ymuno â ni yn ein cyfarfodydd Bwrdd chwarterol.



Ahoi! What Grows Here?, Autumn School 2019 with Owen Griffiths, Ella Gibbs & Sam Makumba  
photo by Vaida Barzdaite

## Manyleb Person

Mae disgwyl i holl staff Peak, pa un ai yn gyflogedig ynteu yn llaw-rydd, i fod ag ymrwymiad i weithredu cyfartal a swyddogaeth hanfodol y celfyddydau a diwylliant ym mywydau pobl a chymunedau. Rydym ni'n rhoi blaenoriaeth i les ac yn holi i'n holl staff weithio'n hyblyg ac mewn ffordd gefnogol er mwyn sicrhau diwylliant gwaith cadarnhaol a dynamig.

Mae Peak yn dilyn trefn recriwtio diogel ar gyfer swyddi sy'n golygu gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sy'n hawdd eu niweidio. Mae unrhyw gynnig o waith a wneir yng nghyswllt y Cydymaith Pobl Ifanc, yn amodol ar wiriadau pellach, a dadleniad boddhaol oddi wrth y gwasanaeth Dadlennu ac Eithrio (gwiriad 'DBS').

## Medrau, gwybodaeth a phrofiad

- angen gweledigaeth greadigol a chynhwysol ar gyfer rhaglen bobl ifanc Peak sydd wedi wreiddio mewn gweithredu artistig gyda chyswllt cymdeithasol
- medru creu rhaglen uchelgeisiol a deniadol ar gyfer pobl ifanc, gan drosi cysyniadau artistig i fedru cael eu gwireddu yn ymarferol pa un ai yw hynny ar-lein ynteu wyneb yn wyneb
- profiad o weithio gyda phobl ifanc, yn cynnwys trefniadau diogelu, trefnu ac asesu risg
- profiad o werthuso rhaglenni er mwyn mesur a rhannu'r effaith a gafodd
- yn medru defnyddio technoleg ddigidol a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwireddu a chyfathrebu ynghylch rhaglenni
- yn gyfathrebwr effeithiol sy'n ennyn empathi, gyda'r gallu i feithrin

ymdiriedaeth a magu perthynas gref gyda phobl ifanc yn ogystal â staff, cydweithwyr a phartneriaid

- yn medru gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm, yn aml ar draws sawl safle neu leoliad
- yn medru rheoli a blaenoriaethu sawl trywydd gweithgarwch ar frys a blaenoriaethu
- gwybodaeth a phrofiad o'r sector gelf weledol a/neu sectorau eraill megis gwaith ym maes yr hinsawdd neu gyfiawnder cymdeithasol
- gwybodaeth ynghylch a phrofiad o weithio yng Nghymru a/neu diddordeb mewn gweithio'n benodol yng nghydestun Cymru a chyd-destun y Gymraeg
- yn medru meddwl a gweithredu yn strategol a gyda llygad ar y tymor hir.

## Gwerthoedd ac ymddygiad

- ag ymrwymiad i gydraddoldeb a herio anghyfiawnder
- ag ymrwymiad i hwyluso mynediad a chyfle i gymryd rhan ar gyfer pobl ifanc a chymunedau gwledig ac i wneud eu lleisiau nhw yn ganolog i Peak
- rhoi blaenoriaeth i leisiau a phrofiadau bywyd y rheini sydd bellaf oddi wrth rym a braint yng Nghymru
- ag ymrwymiad i ddatblygu cynladwy
- bod yn agored i gael eich herio ac i wrando yn ragweithiol
- dangos empathi a bod yn hawdd troi atoch
- ymrwymiad i'r Gymraeg ac aml-ieithrwydd yng Nghymru – mae'r swydd hon ar agor i rai sydd ddim yn siarad Cymraeg ond byddai ymrwymiad i ddysgu yn cael ei groesawu



### Mae o fantais hefyd os oes gennych ...

- brofiad o fod wedi cyflawni swyddogaeth debyg a oedd yn cynnwys gwireddu a gwerthuso
- gwybodaeth a phrofiad o weithio gydag artistiaid proffesiynol, ysgrifenydd, crewyr a chynllunwyr
- profiad o reoli a monitro cyllidebau
- â'r gallu i siarad a/neu 'sgrifennu yn Gymraeg
- â gwybodaeth neu brofiad o'r heriau

penodol sy'n wynebu cymunedau mwy gwledig – yn cynnwys cymunedau yn y cymoedd yn ogystal â threfi a phentrefi mwy 'amaethyddol' o fewn ein rhanbarth

- â mynediad at eich cerbyd eich hun. Mae'r rôl benodol hon yn galw am deithio i ysgolion a mannau gwledig a diarffordd lle nad oes dim neu ond ychydig iawn o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, felly mae medru gyrru a chael mynediad at eich cludiant eich hun yn gaffaeliad mawr.



Image caption: Festival of Ideas, Skyline, Treherbert 2019 with Owen Griffiths  
photo by Mike Erskine